



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diben

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i holl staff Prospects Services a'i isgontractwyr, Llywodraeth Cymru, Modelau Rôl, mentoriaid, gwirfoddolwyr a phartneriaid eraill sy'n gweithio ar gontract Gwasanaethau Entrepreneuriaeth leuenctid (Syniadau Mawr Cymru) sydd mewn cysylltiad â phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod. Nid yw'r ddogfen hon yn disodli **Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (AWCPP): Canllawiau Amddiffyn Plant, Cymru Gyfan 2008**.

Dylai pawb fod yn gyfarwydd hefyd â **Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan**.

Datganiad Polisi

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu lles yr holl ddysgwyr a defnyddwyr gwasanaethau eraill sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod gyda gofal a pharch, gan amddiffyn eu hurddas ar bob adeg. Mae gan bawb beth bynnag eu hoedran, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, hil, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol, priodas/partneriaeth sifil neu feichiogrwydd/mamolaeth hawl gyfartal i gael eu hamddiffyn rhag pob math o niwed neu gamdriniaeth.

Ein Fframwaith ar gyfer Diogelu

- Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yng Nghymru ac mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio ar ddarparu neu sy'n gysylltiedig â chontract Syniadau Mawr Cymru a rhaglenni cysylltiedig ddarparu gwasanaethau sy'n cyd-fynd â **Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan** a gofynion Diogelu Oedolion Cymru
- Mae gan bob aelod staff fynediad i Weithdrefnau Cymru Gyfan ac yn cydymffurfio â nhw
- Pan fydd angen, rhaid i staff weithredu ar lefel yr awdurdod lleol, gan weithio'n ymatebol ac yn rhagweithiol gyda'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol (LSCB), y Bwrdd Diogelu Oedolion Lleol (LSAB), Gofal Cymdeithasol, yr Heddlu, iechyd ac asiantaethau gwirfoddol priodol i sicrhau ymwybyddiaeth lawn o weithdrefnau adrodd lleol ac y cydymffurfir â hwy
- Mae pob gweithiwr cyflogedig neu broffesiynol unigol yn atebol am ei rôl mewn proses Ddiogelu a rhaid iddo/iddi fod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'r Cwestiynau Cyffredin cysylltiedig. Nid mater o ddewis unigol yw Diogelu



@SyniadauMawrCymru | @BigIdeasWales



SyniadauMawrCymru | BigIdeasWales

SyniadauMawr.cymru | BigIdeas.wales



UNDEB EWROPEAID
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

- Bydd y staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant hyd lefel sy'n gymesur â'u rôl a'u cyfrifoldebau lle bo'n briodol ac yn gwybod sut i nodi camdriniaeth a sut mae gwneud atgyfeiriad effeithiol
- Rhaid i bob atgyfeiriad gael ei wneud o fewn 24 awr ar ôl datgeliad neu honiad
- Bydd y sefydliad yn cymhwyso prosesau gorfodol er mwyn sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio ar y contract yn cael eu recriwtio'n ddiogel.

Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r contract wedi penodi Swyddog Diogelu Dynodedig (Paul Brown), gyda dirprwy i gyflenwi yn ei absenoldeb (Delyth Rowlands), ac mae strwythur cyfatebol wedi ei leoli o fewn y tîm comisiynu yn Llywodraeth Cymru i reoli pob digwyddiad a phryder ac i gefnogi staff. O fewn Llywodraeth Cymru, Dorothy Pugh yw'r swyddog arweiniol dynodedig sy'n cael ei chefnogi gan Lorna Pritchard.

Bydd Swyddogion Dynodedig yn cefnogi cydweithwyr wrth gyflawni'r polisi hwn. Mae ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf am bolisiau a gweithdrefnau ac yn cynnig pwynt cysylltu yn achos pryderon. Yn ogystal maent yn cyfrannu at gyfarfodydd neu drafodaethau am y strategaeth ddiogelu, yn cynorthwyo gydag ymholiadau amddiffyn plant (Adran 47), yn darparu adroddiadau ysgrifenedig ac yn cefnogi staff i gyfrannu at asesiadau cychwynnol ac asesiadau craidd pan fo angen.

Rhaid i bob unigolyn sy'n gweithio mewn lleoliadau addysgol a chymunedol fod yn gyfarwydd â pholisiau'r sefydliad a'u dilyn, a rhoi gwybod i'r rheolwr llinell/ cysylltiad Syniadau Mawr Cymru am unrhyw ddatgeliadau.

Cofnodi a Rhannu Gwybodaeth

- Rhaid i bob atgyfeiriad diogelu gael ei wneud gan ddefnyddio'r gweithdrefnau a'r dogfennau perthnasol ar gyfer yr awdurdod lleol yn ogystal â chael ei gofnodi gan Paul Brown a Dorothy Pugh.
- Rhaid i'r holl staff rannu gwybodaeth yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (AWCPP) a phrotocolau'r awdurdod lleol
- Rhaid i'r holl staff gynnal a storio cofnodion yn unol â pholisiau a gweithdrefnau Amddiffyn Data a Diogelwch Gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

Dylai staff ddefnyddio eu barn wrth wneud penderfyniadau am ba wybodaeth i'w rhannu a phryd, a dylent ymgynghori â'u Swyddog Dynodedig os oes ganddynt amheuaeth. Yr ystyriaeth bwysicaf yw a yw rhannu gwybodaeth yn debygol o ddiogelu ac amddiffyn plentyn, person ifanc neu oedolyn sydd mewn perygl.



Diogelu Plant a Phobl Ifanc

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddiogelu yng Nghymru fel y'u hamlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth i rym yn Ebrill 2016.

Ar y lefel leol, byrddau diogelu rhanbarthol sy'n cyd-drefnu ac yn sicrhau effeithiolrwydd Cymru i amddiffyn a hyrwyddo llesiant plant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl.

Mae Byrddau Diogelu Plant ym mhob awdurdod lleol yn gyfrifol am bolisiau a gweithdrefnau lleol ar gyfer ymdrin â phryderon am ddiogelwch a llesiant plant. **Rhaid** i staff fod yn gyfarwydd â threfniadau lleol a sefydliadol.

Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn cydnabod y mathau canlynol o gamdriniaeth:

- Corfforol
- Emosiynol
- Rhywiol
- Esgeulustod.

Nid yw cydnabod camdriniaeth bob amser yn hawdd ac nid cyfrifoldeb aelod o staff yw ymchwilio i a ydy camdriniaeth wedi digwydd neu beidio, neu a ydy plentyn mewn perygl o niwed sylweddol. Fodd bynnag, rhaid i staff bob amser adrodd unrhyw bryder, datgeliad neu honiad.

Diogelu Oedolion sydd mewn Perygl o Gamdriniaeth neu Esgeulustod

Mae camdriniaeth yn niwed sy'n cael ei hachosi gan unrhyw un y mae ganddo bŵer dros berson arall. Gall gynnwys niwed corfforol neu esgeulustod a chamdriniaeth lafar, emosiynol neu rywiol. Hefyd gall oedolion sydd mewn perygl fod yn fictim camdriniaeth ariannol gan bobl maent yn ymddiried ynddynt.

Mae oedolyn mewn perygl yn rhywun dros 18 oed:

- sydd ag anghenion gofal a chymorth
- yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod ac
- o ganlyniad i'r anghenion hynny yn methu ag amddiffyn eu hunain yn erbyn y gamdriniaeth neu'r esgeulustod.



Gall hyn gynnwys oedolion sydd ag:

- anabledd dysgu, corfforol neu synhwyrdd
- salwch meddwl neu ddementia
- llesgedd oherwydd oedran
- anaf i'r ymennydd
- problem gyda chyffuriau/alcohol
- mathau penodol o salwch corfforol.

Nid yw rhywun yn cael ei ystyried fel bod 'mewn perygl' yn syml am eu bod yn oedrannus neu'n dioddef anabledd ac nid yw bod mewn perygl o reidrwydd yn gyflwr parhaol.

Cyfrifoldebau unrhyw un sydd â phryder diogelu

Os oes gan unrhyw berson wybodaeth, pryderon neu amheuan bod plentyn neu oedolyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o niwed, eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu i'w galluogi i ddefnyddio eu pwerau statudol i wneud ymholiadau ac ymyrryd.

Os yw'n bosibl bod rhywun mewn perygl dybryd, ffoniwch 999 bob tro am gymorth yr heddlu. Ni ddylai'r angen i geisio cyngor byth gohirio cymryd unrhyw gamau ar frys.

